Y Fonesig Melanie Dawes
Prif Weithredwr
E-Bost: ChiefExecutive@ofcom.org.uk

Rt Hon Liz Kendall MP
Secretary of State, Department for Science,
Innovation and Technology

15 Mehefin 2026

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Diolch am eich llythyr ar ehangu'r cyfyngiadau ar gyfryngau cymdeithasol i blant a'ch cais am gefnogaeth Ofcom wrth flaenoriaethu camau gweithredu i gyflawni'r mesurau newydd yma'n gyflym.

Rydym yn barod i gydweithio'n agos â'ch swyddogion i sicrhau bod yr amddiffyniadau hyn yn gadarn ac yn effeithiol, ac yn cael eu gweithredu'n gyflym. Byddwn hefyd yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith o orfodi amddiffyniadau presennol i blant, a dinasyddion yn fwy cyffredinol, o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

Yng ngoleuni'r cyhoeddiad heddiw, rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ystyried opsiynau ar gyfer gweithredu sicrwydd oedran effeithiol yn 16 oed, a gallaf gadarnhau y byddwn yn cyflwyno asesiad y gellir ei ddefnyddio i lywio'r ddadl seneddol erbyn diwedd mis Hydref, yn unol â'ch cais.

Gwnaethoch dynnu sylw at bwysigrwydd tryloywder a gofyn bod diweddariad ar y strategaeth gorfodi a'r canlyniadau yn rhan o'n hadroddiadau atebolrwydd rheolaidd i'r Senedd, gan gynnwys adroddiad ar effaith gwaharddiad o fewn blwyddyn iddo ddod i rym.

Gallaf gadarnhau y byddwn yn cyhoeddi adroddiad o fewn yr amserlenni hyn. Rydym yn agored i ddyfnhau a chryfhau ein hatebolrwydd i'r Senedd a byddem yn gwerthfawrogi cynigion seneddol yn y maes hwn. Byddwn hefyd yn cyhoeddi fersiwn newydd o'n map ffordd ar gyfer gweithredu'r drefn ddiogelwch ar-lein yn syth ar ôl i'r rheoliadau gael eu cyflwyno i'r Senedd, er mwyn caniatáu i seneddwyr ddeall y llwybr gorfodi'n fanwl.

Rwy'n gwerthfawrogi eich cydnabyddiaeth o'r baich ychwanegol y bydd darparu'r amddiffyniadau newydd hyn yn ei roi ar Ofcom, a'ch ymrwymiad i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn. Bydd ein swyddogion yn parhau i gydweithio ar y manylion hyn, ochr yn ochr â manylion y gwaith gweithredu. Yn dilyn y llythyr hwn, bydd fy Nghyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Diogelwch Ar-lein yn rhannu ein syniadau cychwynnol ar sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i gyflawni'n gyflym ac yn effeithiol.

Mae gwella diogelwch ar-lein i ddefnyddwyr yn y DU yn un o heriau diffiniol yr oes, ac yn Ofcom, rydym yn barod i barhau i weithio'n agos gyda llywodraeth, y Senedd, rhanddeiliaid a phartneriaid i ysgogi newid parhaol. Rydw i, ochr yn ochr â Syr Ian, bob amser yn awyddus i gwrdd â chi i drafod sut y gallwn gydweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol i gyflawni'r agenda hanfodol hon.

Yn gywir,

Y Fonesig Melanie Dawes